Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Coed Hirwaun**
**Cwrt-y-Carw**
**Coed Hirwaun**
**Margam**
**Port Talbot**
**SA13 2TS**

**Dyddiad yr arolygiad: 24 Mai 2011**

gan

**Dorothy Morris**

dan gontract i

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Coed Hirwaun wedi'i lleoli ar gyrion Margam, yn agos at y ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff ei chynnal gan awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae'n gwasanaethu ardal ddaearyddol eang sy'n cael ei disgrifio gan yr ysgol fel un sy'n bennaf yn freintiedig yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ac mae 179 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae tri y cant o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn isel yn gyson ac yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd, nodir bod gan naw y cant o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys tri disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran hon yn sylweddol is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Daw bron pob disgybl o aelwydydd sy'n siarad Saesneg fel y brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o leiafrifoedd ethnig.

Mae'r ysgol wedi ennill nifer o wobrau. Mae'n Ysgol Iach achrededig ac mae wedi cyflawni statws Eco Ysgol. Mae wedi bodloni'r safonau i gyflawni achrediad ActivMarc Cymru, Marc Cenedlaethol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Ers yr arolygiad diwethaf, bu newidiadau sylweddol i strwythur arweinyddiaeth a staff yr ysgol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth presennol yn cynnwys tri aelod newydd nad oeddent yn eu swyddi yn ystod yr arolygiad diwethaf. Hefyd, bu nifer o newidiadau ymhlith y staff addysgu. Bu'r pennaeth yn ei swydd er mis Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Coed Hirwaun yw £3,448, o'i chymharu ag uchafswm o £7,911 a lleiafswm o £2,843 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae gan yr ysgol y 44$^{fed}$ gyllideb fwyaf fesul disgybl o'r 71 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan;
- caiff ystod o brofiadau dysgu o ansawdd da eu cynnig i ddisgyblion;
- mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda iawn tuag at ddysgu; ac
- mae'r ysgol yn gymuned glòs a gofalgar ac mae ganddi ethos croesawgar.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach, wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'i hanghenion;
- mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae prosesau effeithiol ar waith i fonitro'r ddarpariaeth;
- mae cynlluniau strategol yn canolbwyntio ar wella'r ysgol a chodi safonau; ac
- mae mentrau diweddar wedi arwain at welliannau mesuradwy.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 adeiladu ar y gwelliannau i gyrhaeddiad disgyblion yn y pynciau craidd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A2 ymestyn arfer dda mewn addysgu a dysgu yn fwy cyson trwy'r ysgol gyfan;

A3 ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ymhellach; a

A4 chryfhau ymhellach y cysylltiad rhwng hunan arfarnu a chynllunio datblygiad yr ysgol, ac ymestyn rôl y llywodraethwyr yn y broses fonitro.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar y cyfan, mae cyrhaeddiad y plant yn dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae data'r ysgol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ar y cyfan yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad y disgyblion mewn Saesneg a gwyddoniaeth, fel y mesurwyd gan asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, wedi bod yn uwch neu yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd yr awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg yn amrywio, ond roedd yn uwch na'r cymaryddion yn 2010. Er hynny, mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos tuedd ar i lawr. O gymharu â chyfartaleddau'r teulu ysgolion, mae perfformiad y disgyblion yn amrywio a bu deilliannau mewn Saesneg a mathemateg yn is yn ystod y rhan fwyaf o flynyddoedd. O'i chymharu ag ysgolion tebyg ledled y wlad, wedi'i seilio ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd yn rhoi'r ysgol yn y 50% isaf yn ystod y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na'r deilliannau cenedlaethol a deilliannau'r awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, ond mae'n amrywio mewn mathemateg. Roedd perfformiad y disgyblion yn uwch na

chyfartaleddau'r teulu o ysgolion yn 2010 sy'n adlewyrchu tuedd ar i fyny. O'i chymharu ag ysgolion tebyg ledled y wlad, wedi'i seilio ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd hefyd yn dangos tuedd ar i fyny o'r 50% isaf i'r 50% uchaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 3) ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) yn gwella, ac roedd canlyniadau ym mhob pwnc yn 2010 yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol, y cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu ysgolion.

Nid oes unrhyw wahaniaethau cyson rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2, er bod yna amrywiadau. Yng nghyfnod allweddol 1, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn, yn enwedig mewn llefaredd ac ysgrifennu. At ei gilydd, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da. Yn ôl asesiadau'r athrawon, mae cyrhaeddiad disgyblion mwy galluog yn fwy anghyson. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

Mae craffu ar waith cyfredol y disgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda o gymharu â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn asesiadau diweddaraf yr athrawon o safonau cyrhaeddiad disgyblion yn 2011. Mae strategaethau diweddar wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ac wedi gwella'r deilliannau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, gan gynnwys perfformiad disgyblion mwy galluog mewn Saesneg a mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r deilliannau'n dda ar draws y pynciau craidd ac mae pob disgybl yn y garfan yn cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4. Mae'r disgyblion mwy galluog yn cynnal y duedd ddiweddar mewn deilliannau gwell ar lefel 5.

Mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio ystod dda o eirfa pan fyddant yn trafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn gymwys ac yn trafod cynnwys yr hyn y maent yn ei ddarllen yn hyderus. Maent yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol ddibenion ac mewn arddulliau gwahanol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn ysgrifennu'n fwyfwy rhugl a chywir. Mae bron pob disgybl yn cymhwyso ei fedrau cyfathrebu'n briodol ar draws y pynciau. Maent yn defnyddio eu medrau meddwl, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn gwahanol gyd-destunau.

At ei gilydd, mae safonau mewn Cymraeg yn dda. Trwy'r ysgol gyfan, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn ateb ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml yn gywir yn ystod gwersi, cyfnodau cofrestru ac addoli ar y cyd. Mewn gwersi Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio patrymau sylfaenol ac ystod o eiriau'n gywir. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn cyflawni safonau da iawn yn eu medrau siarad. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen ac ysgrifennu datblygol yn gynyddol mewn gwahanol gyd-destunau.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r gymuned. Mewn trafodaethau, maent yn cadarnhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi mewn amgylchedd gofalgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd byw a bwyta'n iach.

Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn yr ystafell ddosbarth ac o gwmpas amgylchfyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais ag oedolion ac â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos agweddau da iawn tuag at ddysgu. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol ar y cyd ag eraill ac mae eu medrau dysgu annibynnol yn datblygu'n briodol.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol a'r eco bwyllgor yn cyfranogi'n weithredol mewn penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn dda ac yn frwdfrydig. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at sawl agwedd ar fywyd yr ysgol.

Trwy weithgareddau cwricwlaidd a chyffredinol yr ysgol, gan gynnwys y ddarpariaeth allgyrsiol, mae'r disgyblion yn ennill ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol. Mae lefelau presenoldeb yn dda ac yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn cynllunio rhaglen gynhwysfawr a diddorol o weithgareddau dysgu sy'n bodloni anghenion y disgyblion yn dda. Mae cynlluniau ysgol gyfan effeithiol i ddatblygu cwricwlwm wedi'i seilio ar fedrau. Mae cynllunio i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn gynyddol yn llai cyson. Yn yr arfer orau, caiff ystod o strategaethau eu defnyddio'n effeithiol i fodloni'r ystod lawn o alluoedd yn y dosbarth. Nid yw'r drefn yn gyson ar draws yr holl ddosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda oddi mewn i'r cwricwlwm a'r tu hwnt i alluogi disgyblion i ennill dealltwriaeth o'u lle a'u cyfrifoldebau yn y byd. Mae cyngor yr ysgol, sydd wedi'i hen sefydlu, yr eco bwyllgor a'r cysylltiadau â Bangladesh yn cyfrannu'n gadarnhaol at y ddarpariaeth honno.

At ei gilydd, mae darpariaeth dda i ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn ystod gwersi ac yn annog disgyblion i ymateb. Er hyn, mae'r defnydd o arddangosiadau a chyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi yn llai amlwg. Mae darpariaeth i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, hanesyddol a daearyddol Cymru yn datblygu'n dda trwy'r cwricwlwm a gwaith cyffredinol yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda ar y cyfan. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu ac adnoddau addas i ddatblygu'r dysgu. Yn nosbarth Blwyddyn 3/4, mae nodweddion rhagorol yn y modd y mae'r addysgu'n hyrwyddo medrau'r disgyblion gyda lefel uchel o her a chymorth. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw cyfarwyddiadau'n ddigon clir ac mae cyfleoedd i ymestyn y dysgu yn cael eu colli. Mae'r staff cymorth dysgu yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Trwy'r ysgol gyfan, mae perthynas waith dda iawn rhwng y disgyblion a'r staff mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r wybodaeth a geir yn cael ei defnyddio'n briodol i gynllunio cynnwys gwersi a dulliau dysgu. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno meddalwedd monitro i olrhain perfformiad disgyblion, er ei bod yn rhy gynnar i asesu ei effeithiolrwydd o ran codi safonau ymhellach.

Mae adborth llafar i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith yn gadarnhaol ac yn galonogol bob tro. Lle mae'r marcio'n fwyaf effeithiol, mae'n ffurfiannol ac yn nodi'r ffordd ymlaen yn glir, gan alluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae llawer o'r athrawon wedi ymgorffori rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu harfer yn yr ystafell ddosbarth. Lle caiff y rhain eu defnyddio'n gyson, mae'r disgyblion yn gweithio'n hyderus ac yn annibynnol, gan ddechrau cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae rhieni yn cael digon o wybodaeth am gynnydd a chyflawniadau eu plant. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn llawn gwybodaeth ac, yn yr enghreifftiau gorau, yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd pob plentyn unigol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol. Mae profiadau dysgu o ansawdd da yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Oherwydd hynny, mae bron pob disgybl yn dangos parch tuag at eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ystod eang o fentrau sy'n annog bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae'n cydweithio'n agos gydag asiantaethau priodol i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion yn ôl y galw.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau clir ar gyfer diogelu. Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae asesiadau trylwyr yn galluogi anghenion i gael eu hadnabod yn gynnar. Caiff disgyblion eu cynorthwyo'n dda a chaiff cynlluniau addysgol unigol eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru i sicrhau bod anghenion dysgu'n cael eu bodloni. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, yn enwedig y rhai sy'n ymgymryd â rhaglenni darllen penodol. Mae'r athrawon yn rhoi gwybodaeth gyflawn i rieni am gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu ei natur gynhwysol, lle mae'r disgyblion yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm a phob gweithgaredd. Mae hyn yn datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion ac yn herio ystrydebau'n briodol.

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a pharch tuag eraill yn gyson. Mae ffocws llwyddiannus ar ddatblygu gwerthoedd gofal, empathi a chwarae teg trwy addysg bersonol a chymdeithasol, gwaith trawsgwricwlaidd, cysylltiadau â Bangladesh ac addoli ar y cyd. Hefyd, mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau lleol yn dda. Mae hyn yn ymwreiddio'r ysgol yn dda yn ei hamgylchedd lleol ac yn hybu balchder y disgyblion yn eu hardal.

Mae'r prif adeilad, y mannau dysgu awyr agored a thir yr ysgol o safon uchel a chânt eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd dysgu symbylol sy'n darparu'n dda ar gyfer pob disgybl. Mae digon o offer priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r staff a'r disgyblion yn defnyddio'r cyfleusterau'n effeithiol. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn elwa ar fannau dysgu dan do ac awyr agored sy'n cyfrannu'n dda at eu dysgu. Serch hynny, mae lle yn gyfyngedig yn yr ystafell ddosbarth dros dro.

Mae'r ysgol yn datblygu'r tir yn effeithiol fel adnodd dysgu. Mae gwelliannau diweddar i'r ffensys ar hyd y terfyn a'r gweithdrefnau cyrraedd a gadael ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr yn gwella diogelwch i bawb.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth newydd yn cydweithio'n agos ag uwch reolwyr i greu ethos cadarnhaol i'r ysgol gyfan. Mae'n cyfathrebu ei weledigaeth yn effeithiol ac yn pennu cyfeiriad clir i'r ysgol. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus iawn gan y dirprwy bennaeth a gyfrannodd yn sylweddol at fesurau i wella'r ysgol fel y pennaeth dros dro. Gwella'r ysgol a chodi safonau yw ffocws cynlluniau strategol o hyd, a defnyddiwyd rheoli perfformiad yn dda i ategu hyn. Mae swydd ddisgrifiadau'n gosod rolau a chyfrifoldeb pob aelod o'r staff, sy'n datblygu cyd-ddealltwriaeth well o dargedau ar gyfer gwella. Mae'r holl staff yn cydweithio'n dda fel tîm. Mae'r defnydd llwyddiannus o arsylwi dosbarthiadau a rhannu mwy o arfer dda wedi gwella ansawdd yr addysgu a monitro safonau. Mae hyn yn cael effaith dda ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol, sy'n cynnwys nifer o aelodau newydd, yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae'n datblygu dealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol trwy adolygu data ar gyrhaeddiad disgyblion. At ei gilydd, nid yw rolau'r aelodau fel cyfeillion cynorthwyol ond beirniadol, sy'n ymweld â'r ysgol at ddibenion monitro, wedi'u sefydlu cystal.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r staff wedi gweithio'n effeithiol i wella medrau llythrennedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion, ac i ddatblygu cwricwlwm wedi'i seilio ar fedrau yng nghyfnod allweddol 2. Mae pob un o'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi'i hen sefydlu ac mae'r ysgol yn defnyddio ystod o ffynonellau'n effeithiol i gynorthwyo'r broses hon. Caiff barn disgyblion a rhieni/gofalwyr, staff a llywodraethwyr ei hystyried yn ofalus. At ei gilydd, mae deilliannau'r broses hunan arfarnu yn dylanwadu ar y blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol, sy'n amlinellu'n glir y rhaglen ar gyfer gwella. Serch hynny, nid yw'r ffocws ar wella safonau mewn meysydd pwnc penodol ac mewn nodi blaenoriaethau datblygiadol tymor hwy yn ddigon clir bob tro.

Mae mentrau sy'n deillio o hunan arfarnu wedi cael effaith dda ar nifer o feysydd gwella'r ysgol, gan gynnwys gwella safonau mewn llythrennedd a mathemateg. At ei gilydd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu argymhellion yr arolygiad blaenorol. Bellach, mae'r ddarpariaeth mewn cerddoriaeth a'r safonau a gyflawnir yn dda.

Caiff pob aelod o'r staff gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol yn unol â'r cyfrifoldebau penodol, ac mae hyn wedi'i gysylltu'n briodol â rheoli perfformiad.

Mae'r athrawon yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol y tu mewn i'r ysgol ac ar y cyd ag ysgolion eraill. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu arfer yn yr ystafell dosbarth. Mae gwaith un gymuned ddysgu broffesiynol yn yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac ymwybyddiaeth ffonig, yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau llythrennedd. Ar lefel ehangach, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r clwstwr o ysgolion lleol ar nifer o brosiectau ar y cyd, yn enwedig y gweithgareddau pontio â'r ysgol uwchradd leol. Mae hyn yn cael effaith dda ar ddarpariaeth yr ysgol ei hun. Dan arweinyddiaeth y pennaeth, mae cysylltiadau da yn cael eu meithrin â'i theulu ysgolion ar lefel genedlaethol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau sy'n hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Mae gan yr ysgol gymdeithas rieni, athrawon a chyfeillion gref sy'n gynorthwyol iawn ac yn arbennig o lwyddiannus o ran codi arian ar gyfer digwyddiadau cymunedol ac adnoddau i'r ysgol. Mae'r staff yn cydweithio'n gynhyrchiol ag ystod o wahanol bartneriaid i gefnogi cysylltiadau a phrosiectau cymunedol. Mae gwefan yr ysgol yn cynnwys hypergysylltiadau i wefannau grwpiau cymunedol sy'n hyrwyddo cydweithio. Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'n ffocws ar gyfer y gymuned.

Mae'r bartneriaeth gydag ysgolion y clwstwr yn darparu fforwm proffesiynol effeithiol. Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar y cyd yn helpu i gyflwyno mentrau newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Mae cynlluniau pontio y cytunwyd arnynt â'r ysgolion uwchradd lleol yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi'n briodol ar

gyfer y cam nesaf yn eu haddysg ac yn helpu i ddatblygu parhad mewn dysgu a lles. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda. Mae digon o staff addysgu â phrofiad perthnasol ac arbenigedd yn eu pynciau i gyflwyno'r cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'r athrawon yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion ailfodelu'r gweithlu a chaiff amser cynllunio, paratoi ac asesu ei ddefnyddio'n adeiladol i ddarparu arbenigedd mewn meysydd cwricwlaidd. At ei gilydd, caiff ystod dda o adnoddau dysgu eu defnyddio'n effeithiol trwy'r ysgol gyfan i gefnogi'r dysgu ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

Caiff cyllideb yr ysgol ei gweinyddu'n ofalus ac mae cynlluniau gwario wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu'r blaenoriaethau hyn yn rheolaidd. O ystyried y cynnydd da y mae'r disgyblion yn ei wneud ac ansawdd y profiadau addysgol sy'n cael eu darparu, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd yr holiadur ei lenwi gan tua thraean o'r rhieni/gofalwyr, a wnaeth ymateb yn gadarnhaol i bob un o'r cwestiynau.  Dywed llawer ohonynt fod eu plant yn hapus yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn gwneud cynnydd da.  Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn ymgartrefu'n dda ac yn cael eu hannog i gadw'n iach.  Maent yn credu bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg.  Maent yn ychwanegu bod yr addysgu'n dda a bod yr ysgol yn cael ei rheoli'n dda.  Mae'r mwyafrif ohonynt yn credu bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda a bod y gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.  Mae llawer ohonynt yn ychwanegu eu bod yn cael digon o wybodaeth am gyflawniadau eu plant.  Mae'r mwyafrif ohonynt yn ei chael yn hawdd siarad â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cafodd yr holiadur ei lenwi gan bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a siaradodd y tîm arolygu â disgyblion yn ystod yr arolygiad.  Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu.  Mae pob un o'r disgyblion o'r farn bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno eu bod yn dysgu sut i gadw'n iach a'u bod yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod y disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Nigel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Anthony Stevenson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Owain Hyett | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:**
ALl Sir Benfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

**Copïau o'r adroddiad**
Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |